OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

### RHAN 9

### GRANT MYFYRIWR ANABL

**Swm y grant myfyriwr anabl**

**63.**—(1) Swm y grant myfyriwr anabl y mae myfyriwr yn cymhwyso i'w gael mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yw'r swm—

(a) y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei fod yn briodol, ond

(b) nad yw'n fwy na swm cyfanredol y terfynau sy'n gymwys mewn cysylltiad â'r Achosion a restrir ym mharagraff (2).

(2) Yr Achosion a'r terfynau yw—

*Achos 1*

Gwariant sy'n ofynnol ar gynorthwyydd personol anfeddygol.

Terfyn o **[**[F1]£22,472 **]**mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o gwrs llawnamser.

Terfyn o **[**[F2]£16,853 **]**mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o gwrs rhan-amser.

*Achos 2*

Gwariant sy'n ofynnol ar eitemau mawr o offer arbenigol.

Terfyn o **[**[F3]£5,657 **]**llai y symiau a dalwyd fel grant myfyriwr anabl i'r myfyriwr at yr un diben mewn unrhyw flwyddyn academaidd flaenorol o'r cwrs.

*Achos 3*

Gwariant ychwanegol yr eir iddo—

(a) o fewn y Deyrnas Unedig at ddiben bod yn bresennol yn y sefydliad, a

(b) o fewn y Deyrnas Unedig neu'r tu allan iddi at ddiben bod yn bresennol, fel rhan o'r cwrs presennol, am unrhyw gyfnod o astudio mewn sefydliad tramor (gan gynnwys Sefydliad Prifysgol Llundain ym Mharis).

Wedi ei gyfyngu i'r gwariant gwirioneddol yr eir iddo at y diben hwn.

*Achos 4*

Unrhyw wariant arall gan gynnwys gwariant at ddiben a bennir yn Achos 1 neu 2 pan fo'r terfyn sy'n gymwys i'r Achos hwnnw wedi ei gyrraedd mewn cysylltiad â'r grant myfyriwr anabl ar gyfer y flwyddyn academaidd o dan sylw.

Terfyn o **[**[F4]£1,894 **]**mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o gwrs llawnamser.

Terfyn o **[**[F5]£1,420 **]**mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o gwrs rhan-amser.

### Diwygiadau Testunol

**F1** Sum in Rhl. 63(2) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **51(a)**

**F2** Sum in Rhl. 63(2) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **51(b)**

**F3** Sum in Rhl. 63(2) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **51(c)**

**F4** Sum in Rhl. 63(2) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **51(d)**

**F5** Sum in Rhl. 63(2) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **51(e)**

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** Rhl. 63 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/03/2019. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.